# Lleihau a delio ag ymddygiad ymosodol a difrïol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithredu mewn ffordd nad yw'n ysgogi ymddygiad ymosodol neu ddifrïol. Mae hefyd yn ymdrin â thawelu sefyllfaoedd ac amddiffyn eich hun wrth ddelio â phobl sy’n mynd yn ymosodol ac yn ddifrïol, drwy ymbellhau eich hun oddi wrth y sefyllfa. Nid oes gofyniad yn yr uned hon i ddefnyddio grym corfforol. Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen i chi wneud y canlynol:

1. dangos parch at bobl, eu heiddo a’u hawliau;
2. nodi a lleihau gweithredoedd neu eiriau a allai sbarduno ymddygiad difrïol ac ymosodol;
3. cymryd camau adeiladol i dawelu sefyllfaoedd;
4. gweithredu mewn ffordd sy’n tawelu ac yn gefnogol;
5. gwahanu’n gorfforol, os oes angen, oddi wrth sefyllfa fygythiol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol

Mae'r safon hon yn berthnasol i staff gwasanaethau cymorth sy'n gweithio gydag unigolion a allai fod yn ymosodol neu'n ddifrïol. Fodd bynnag, nid oes rhaid i’r aelodau staff hyn herio na cheisio addasu’r ymddygiad hwn na defnyddio grym corfforol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu’r wybodaeth a’r polisïau diweddaraf.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfathrebu â phobl mewn ffordd:
1.1 sy'n dangos parch tuag atynt, eu heiddo a'u hawliau
1.2 sy'n briodol iddynt
1.3 sy'n rhydd o wahaniaethu ac ymddygiad gormesol
2. esbonio'n glir beth yw eich rôl a beth mae'n rhaid i chi ei wneud
3. esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir ganddyn nhw
4. cynllunio sut y byddwch yn gadael sefyllfa os oes risg o ymddygiad difrïol ac ymosodol
5. bod yn effro i weithredoedd neu eiriau a allai sbarduno ymddygiad difrïol ac ymosodol, a'u lleihau
6. cydnabod pan fydd sefyllfa yn arwain at ymddygiad ymosodol a difrïol
7. cymryd camau adeiladol i dawelu ymddygiad ymosodol a difrïol:
7.1 na fydd yn gwneud y sefyllfa'n waeth
7.2 sy'n gyson â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol
8. tynnu sylw'r bobl briodol at ganlyniadau tebygol eu hymddygiad ymosodol a difrïol
9. gweithredu mewn ffordd sy'n debygol o annog tawelwch a sicrwydd
10. gwahanu'n gorfforol o sefyllfaoedd a'u gadael, os oes angen gwneud hynny, mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o anaf i chi eich hun ac i eraill
11. rhoi gwybod yn brydlon ac yn gywir am yr hyn sydd wedi digwydd a chwblhau'r holl gofnodion angenrheidiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pam ei bod yn bwysig dangos parch tuag at bobl, eu heiddo a'u hawliau a sut mae gwneud hynny
2. ymddygiad neu iaith a allai ddangos i bobl eraill eich bod yn gwahaniaethu neu'n ormesol
3. iaith y corff a chydnabod gofod personol pobl eraill
4. egwyddorion asesu risg o ran bod yn ymwybodol o bethau a allai sbarduno ymddygiad difrïol ac ymosodol
5. pwysigrwydd cynllunio sut y byddwch yn gadael sefyllfa os oes risg gorfforol, a sut i wneud hynny
6. y prif arwyddion y gallai sefyllfa arwain at ymddygiad ymosodol neu sarhaus, a sut i adnabod y rhain
7. y mathau o ymddygiad adeiladol y gallwch eu defnyddio i dawelu sefyllfaoedd
8. gweithdrefnau eich sefydliad o ran delio ag ymddygiad ymosodol a difrïol
9. eich cyfrifoldebau cyfreithiol o ran delio ag ymddygiad ymosodol a difrïol
10. beth yw'r goblygiadau os bydd rhywun yn mynd yn ymosodol neu'n sarhaus
11. technegau gwahanu diogel
12. yr adroddiadau y mae'n rhaid eu gwneud a'r cofnodion y mae'n rhaid eu cadw pan fydd rhywun yn mynd yn ymosodol neu'n sarhaus

## Cysylltiadau Allanol

Mae'r safon hon yn cysylltu â'r dimensiwn canlynol yn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG (Hydref 2004):

Dimensiynau: Iechyd, Diogelwch a Diogeledd Craidd 3.

# Lleihau a delio ag ymddygiad ymosodol a difrïol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 20 Maw 2031 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 12 Maw 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SS09 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig, Iechyd, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Iechyd |
| **Cyfres/Set** | Gwasanaethau Cefnogi |
| **Geiriau Allweddol** | Porthora, Glanhau, Cadw Tŷ, Golchdy, Cofnodion Iechyd, Post, Diogelwch |